# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 28 Mehefin 2023

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13384

## 149

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Atebwyd cwestiwn 3 gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 14.19

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 15.12

**Atebwyd gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**

Cefin Campbell (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa asesiadau y mae Llywodraeth Cymru'n eu gwneud o'r diswyddiadau a ragwelir yng Ngwesty Parc y Strade, Llanelli?

**Atebwyd gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**

Tom Giffard (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y penderfyniad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ynghylch sefydlu cronfa ar gyfer gohebydd i ymdrin â thrafodion y Senedd?

Am 15.39, cododd Tom Giffard Bwynt o Drefn i ddatgan fod Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth wedi camgyfleu sylwadau a wnaeth yn ystod ei Gwestiwn Amserol cynharach. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y byddai'n adolygu'r Cofnod ac yn dychwelyd at y mater.

Am 19.37, dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod wedi adolygu'r Cofnod ac y byddai'n ysgrifennu at yr Aelodau perthnasol.

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.40

Gwnaeth **Carolyn Thomas** ddatganiad am - Diwrnod Cenedlaethol y Dolydd (1 Gorffennaf).

Gwnaeth **Vikki Howells** ddatganiad am - Wŷl y Cyhoeddi ar gyfer Eisteddfod 2024 wedi ei gynnal yn Aberdâr (24 Mehefin).

Gwnaeth **James Evans** ddatganiad am - Cymru yn ennill ym Mhencampwriaethau Cneifio'r Byd (25 Mehefin).

Gwnaeth **Altaf Hussain** ddatganiad am - Eid al-Adha (gŵyl Aberth), a'i bwysigrwydd i Fwslemiaid yng Nghymru a thu hwnt (28 Mehefin).

## Cynnig i ethol Aelod i bwyllgor

Dechreuodd yr eitem am 15.46

**NNDM8313** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Heledd Fychan (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Busnes yn lle Siân Gwenllian (Plaid Cymru).

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 5 Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod – Bil dyletswydd ddinesig i bleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 15.47

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM8293** Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil ar gyflwyno dyletswydd ddinesig i bleidleisio.

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) ceisio efelychu llwyddiant democratiaethau eraill sydd wedi cyflwyno dyletswydd ddinesig i bleidleisio o ran cynyddu'r nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau a thrwy hynny wella lefel yr ymgysylltiad a'r cynrychioldeb ar draws pob oedran, dosbarth a chymuned;

b) cyflwyno dyletswydd ddinesig ar bawb sy'n gymwys i bleidleisio i gymryd rhan yn etholiadau'r Senedd ac etholiadau cyngor sir;

c) caniatáu i'r rhai sy'n dymuno nodi eu hanfodlonrwydd gydag ymgeisydd, plaid neu wleidyddiaeth yn ehangach i wneud hynny drwy opsiwn o ymatal yn gadarnhaol ar y papur pleidleisio;

d) caniatáu cyflwyno cosb briodol am beidio â chydymffurfio â'r rhwymedigaeth ddinesig i bleidleisio neu ymatal yn gadarnhaol, gydag eithriadau cyfreithlon; ac

e) darparu ar gyfer cyflwyno cyfnod peilot ar gyfer cyflwyno'r ddyletswydd ar sail oedran benodol.

**Cefnogwyr**

Rhys ab Owen (Canol De Cymru)

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 20 | 20 | 12 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol - 60% - Rhoi llais iddyn nhw: Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid

Dechreuodd yr eitem am 16.14

**NDM8304** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, '60% - Rhoi llais iddyn nhw: Anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu yn y system cyfiawnder ieuenctid', a osodwyd ar 19 Ebrill 2023.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mehefin 2023.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl ar ddeiseb P-06-1340 - Atal newid y terfynau cyflymder i 20mya ar 17eg Medi

Dechreuodd yr eitem am 17.01

**NDM8306** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi'r ddeiseb 'P-06-1340 Atal newid y terfynau cyflymder i 20mya ar 17eg Medi' a gasglodd 21,920 o lofnodion.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Cymunedau gwledig

Dechreuodd yr eitem am 18.09

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8307** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi pwysigrwydd yr economi wledig a'r rôl y mae busnesau bach yn ei chwarae mewn cymunedau gwledig ledled Cymru.

2. Yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr ffermio Cymru i'r economi wledig.

3. Yn cydnabod manteision digwyddiadau fel Sioe Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol ac eraill o ran cefnogi cymunedau gwledig a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) creu strategaeth seilwaith i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu cymunedau gwledig; a

b) ailddyblu ymdrechion i fynd i'r afael â chysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus wael ar draws cefn gwlad Cymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 38 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Geidwadol y DU wedi tynnu gwerth cannoedd o filoedd o bunnau o gyllid oddi wrth economi wledig Cymru.

Yn gresynu at y diffyg sicrwydd ynghylch cyllid hirdymor i gynorthwyo ffermydd ers i'r DU ymadael â'r UE.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 14 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM8307** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi pwysigrwydd yr economi wledig a'r rôl y mae busnesau bach yn ei chwarae mewn cymunedau gwledig ledled Cymru.

2. Yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr ffermio Cymru i'r economi wledig.

3. Yn cydnabod manteision digwyddiadau fel Sioe Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol ac eraill o ran cefnogi cymunedau gwledig a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) creu strategaeth seilwaith i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu cymunedau gwledig; a

b) ailddyblu ymdrechion i fynd i'r afael â chysylltedd trafnidiaeth gyhoeddus wael ar draws cefn gwlad Cymru.

5. Yn gresynu at y ffaith bod Llywodraeth Geidwadol y DU wedi tynnu gwerth cannoedd o filoedd o bunnau o gyllid oddi wrth economi wledig Cymru.

6. Yn gresynu at y diffyg sicrwydd ynghylch cyllid hirdymor i gynorthwyo ffermydd ers i’r DU ymadael â’r UE.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 14 | 52 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y’i diwygiwyd.**

## 9 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 19.17

## 10 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 19.21

**NDM8305** Mabon ap Gwynfor (Dwyfor Meirionnydd)

Pobl hŷn ac agored i niwed sy'n berchen ar dai ac yn byw mewn cartrefi sy'n anaddas i bobl fyw ynddynt

Daeth y cyfarfod i ben am 19.37

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 4 Gorffennaf 2023**